Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Chwarae Pili Pala
# Ysgol Rhewl
# Rhuthun
# Sir Ddinbych
# LL15 2TU

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2013**

**gan**

**Wil Williams**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 13/06/2013**

## Cyd-destun

Agorodd Cylch Meithrin Pili Pala ym mis Tachwedd 2003 ac mae'n rhannu ystafell ddosbarth a chyfleusterau gyda phlant dan bump oed yn Ysgol Rhewl, ger Rhuthun. Mae'r lleoliad yn gwasanaethu pentref Rhewl a'r ardal gyfagos. Mae'r lleoliad yn disgrifio'r ardal fel un nad yw'n freintiedig na chwaith dan anfantais economaidd na chymdeithasol.

Mae plant o bob gallu a chefndir yn cael eu derbyn i'r lleoliad. Yn ystod yr arolygiad, nid oedd unrhyw blant wedi cael eu hadnabod fel plant ag anghenion dysgu ychwanegol nac o grŵp ethnig lleiafrifol. Saesneg yw'r brif iaith a siaredir gartref gan yr holl blant.

Mae'r lleoliad yn agored am bum sesiwn prynhawn yr wythnos ar gyfer plant tair oed. Ar hyn o bryd, mae pump o blant ar y cofrestr a dau ohonynt yn cael eu hariannu gan yr awdurdod lleol.

Mae arweinydd ac un ymarferydd yn cefnogi dysgu'r plant. Mae'r ddwy wedi'u cymhwyso'n briodol i addysgu'r blynyddoedd cynnar.

Ar ôl gadael y lleoliad, mae bron y cyfan o'r plant yn trosglwyddo i Ysgol Rhewl.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan Arolygaeth Gofal a Gwasanaeth Cymdeithasol Cymru yn Nhachwedd 2012 a gan Estyn yn ystod Mehefin 2007.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad cyfredol yn dda oherwydd bod:

- profiadau dysgu'n llwyddo i gyfarfod ag anghenion a diddordebau plant ar draws yr holl ystod gallu;
- cynllunio systematig yn sicrhau bod plant yn caffael y medrau llythrennedd, rhif a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu angenrheidiol;
- addysgu da yn annog ymrwymiad a mwynhad plant mewn dysgu;
- asesu systematig yn arwain at gynllunio mwy effeithiol ar gyfer datblygiad plant yn y dyfodol;
- ansawdd y gofal, y gefnogaeth a'r arweiniad yn dda; a'r
- lleoliad yn gymuned gynhwysol.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'n dda oherwydd bod:

- gan yr arweinydd weledigaeth glir a disgwyliadau uchel ar gyfer datblygiad y lleoliad;
- datblygiadau diweddar wedi arwain at welliant sylweddol yng ngwaith y lleoliad;
- staff yn gweithio'n agos iawn fel tîm ac yn rhannu'r un gwerthoedd cyffredin am ddysgu;
- y pwyllgor rheoli yn ymgymryd â'i gyfrifoldebau yn gydwybodol iawn;
- ymarferwyr yn hunan arfarnu ac ymchwilio i ffyrdd o wella'n barhaus; ac
- amrediad da o weithgareddau partneriaeth yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i gyflawniad a lles plant.

## Argymhellion

R1 Sefydlu cornel cartref yn benodol ar gyfer defnydd plant y lleoliad.

R2 Sicrhau gwell dilyniant rhwng dysgu y tu mewn ac oddi allan.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**
Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | |
|---|---|

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Trwy gydweithio effeithiol gydag athrawes y Cyfnod Sylfaen yn yr ysgol gynradd, mae'r lleoliad yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu sy'n llwyddo i gyfarfod ag anghenion a diddordebau plant ar draws yr holl ystod gallu. Mae hyn yn galluogi pob plentyn i wneud cynnydd da tuag at gyfarfod deilliannau'r Cyfnod Sylfaen. Mae gweithgareddau symbylus a hyblyg yn hybu ymrwymiad plant yn dda ac yn eu hannog i gymryd rhan weithredol yn eu dysgu. Mae cynllunio hir dymor systematig yn sicrhau wrth i blant symud ymlaen trwy'r Cyfnod Sylfaen yn systematig bod y cwricwlwm yn adeiladu ar wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau cyfredol.

Mae natur ymarferol a phenagored y profiadau dysgu yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r plant i lunio perthnasau cadarnhaol gyda'r naill a'r llall ac i hybu synnwyr o barch a goddefgarwch tuag at eraill. Caiff plant eu hannog i fentro, i arbrofi gyda phrofiadau newydd ac i archwilio eu hamgylchedd, megis yr ardal natur, yn hyderus. Cyfranna hyn yn dda tuag at eu datblygiad fel dysgwyr annibynnol. Darpara gweithgareddau dan do a rhai yn yr awyr agored gyfleoedd da ar gyfer datblygu medrau corfforol a chreadigol plant a chodi ymwybyddiaeth o fyd natur. Fodd bynnag, mae'r arfer o gynllunio ar wahân ar gyfer yr amgylchedd dan do a'r un yn yr awyr agored yn arwain at ddiffyg dilyniant yn nysgu plant.

Trwy gynllunio gofalus a systematig, mae'r lleoliad yn sicrhau bod plant yn caffael sgiliau llythrennedd, cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu angenrheidiol i'w galluogi i fanteisio ar eu holl brofiadau dysgu. Mae profiadau ymarferol llawn sialens, fel gwneud brechdanau ar gyfer eu byrbryd, yn rhoi cyfleoedd da i blant ddatblygu eu medrau meddwl a dyfeisio strategaethau gwahanol ar gyfer datrys problemau.

Mae darpariaeth dda ar gyfer hybu'r Gymraeg. Mae plant yn clywed oedolion yn siarad Cymraeg o'u hamgylch yn eithaf mynych a chânt eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg gymaint ag y bo modd. Mae ymwybyddiaeth plant o draddodiadau a dathliadau diwylliannol Cymru yn cael eu datblygu mewn ffordd ystyrlon a diddorol.

Mae plant yn ymwneud yn ymarferol yn nod y lleoliad i weithredu'n gynaliadwy trwy gadw gwastraff i'r isafswm, arbed ynni ac ailgylchu papur. Trwy chwarae rôl a dathlu amgylchiadau fel y Flwyddyn Newydd Sieineaidd, mae dealltwriaeth plant o'r byd mawr yn cael ei hybu'n briodol.

**Addysgu: Da**
Mae gan ymarferwyr wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o'r Cyfnod Sylfaen ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ar gyfer dysgu plant. Mae'r amgylchedd symbylus, llawn sialens a chyffrous y mae'r lleoliad yn creu yn annog ymrwymiad, cyfranogiad a mwynhad plant. Caiff profiadau dysgu eu haddasu'n fedrus i gyfarfod ag anghenion yr holl blant, gan gynnwys y rhai abl a thalentog. Mae ymarferwyr yn gwybod pryd i ymyrryd yn nysgu plant ac yn gwneud hynny'n sensitif a medrus er mwyn annog plant i osod sialens iddynt eu hunain wrth ddysgu. Mae cydbwysedd da'n cael ei gynnal rhwng gweithgareddau o ddewis y plant a rhai dan arweiniad ymarferydd. Caiff defnydd dychmygus ei wneud o amrywiaeth o adnoddau er mwyn apelio at ddiddordeb plant a gwella dysgu. Mae cefnogaeth gyda ffocws eglur gan oedolion yn gwneud cyfraniad arwyddocaol tuag at ansawdd dysgu plant.

Mae arsylwi systematig a chofnodi dysgu plant yn galluogi ymarferwyr i gadw llygaid gofalus ar gynnydd pob plentyn a chynllunio'n fwy effeithiol ar gyfer eu datblygiad yn y dyfodol. Pe bai rhieni eisiau trafod cynnydd neu les eu plentyn, mae ymarferwyr bob amser ar gael iddynt ar ddechrau a diwedd pob sesiwn. Ar ddiwedd cyfnod eu plentyn yn yr ysgol, mae rhieni yn derbyn cofnod ffotograffig o gynnydd eu plentyn yn y saith maes dysgu. Mae hyn yn sicrhau bod ganddynt wybodaeth gyfredol am gyflawniadau, lles a datblygiad eu plentyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae ymarferwyr yn cymryd gofal mawr o blant ac yn sicrhau bod y lleoliad yn fan cyfforddus, cartrefol a diogel iddynt ddysgu a chwarae ynddo. Mae plant yn cael eu hannog i edrych ar y lleoliad fel cymuned lle mae pobl yn dysgu byw gyda'i gilydd mewn cytgord. Mae ymarferwyr yn adnabod plant yn dda ac yn darparu arweiniad eglur iddynt yn ystod sesiynau. Mae arferion bwyta iach, yn ogystal ag arferion hylendid, er enghraifft glanhau eu dannedd, a gweithgaredd corfforol yn cael eu hybu'n llwyddiannus a'u cefnogi'n dda gan rieni.

Yn ystod eu hymwneud dyddiol gyda phlant, mae ymarferwyr yn pwysleisio'n gryf yr angen i bawb fod yn garedig tuag at y naill a'r llall, bod yn onest a theg ac ymddwyn mewn dull cyfrifol. Mae hyn yn gymorth mawr i blant ddysgu'r gwahaniaeth rhwng yr hyn sy'n iawn a'r hyn nad yw. Mae cyfleoeddd cyson i blant ymgymryd â chyfrifoldebau ac i wneud penderfyniadau eu hunain am eu dysgu yn cyfrannu'n dda i'w datblygiad personol a chymdeithasol.

Mae trefniadau anwytho effeithiol yn cynorthwyo plant i ymgartrefu'n gyflym yn y lleoliad. Mae trefniadau'r lleoliad i ddiogelu plant yn ateb y gofynion ac nid yw'n achos pryder.

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth dda o sut i gael mynediad at gymorth proffesiynol ar gyfer plant a rhieni. Mae prosesau effeithiol ar gyfer adnabod plant gydag anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar fel bod modd darparu cefnogaeth ychwanegol os oes angen.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant fynediad cyfartal at feysydd dysgu a gweithgareddau a ddarperir ar eu cyfer. Mae pwyslais cryf ar

ddatblygu agweddau goddefgar a sicrhau bod plant a staff yn rhydd o unrhyw ymyrraeth. Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr gyda gwybodaeth ac arbenigedd digonol i addysgu pob agwedd o gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Llwydda ymarferwyr i greu amgylchedd symbylus lle gall pob plentyn fanteisio'n llawn ar brofiadau dysgu a datblygu gwerthoedd ac agweddau cadarnhaol.

Mae cyflenwad digonol o adnoddau o ansawdd da sy'n galluogi ymarferwyr i gyflawni gofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae adnoddau yn y gymuned, fel y parc lleol, yn cael eu defnyddio'n effeithiol gan staff i gefnogi dysgu yn y dosbarth.

Mae'r adeiladau a'r ystafelloedd o ansawdd da ac yn hygyrch i rieni a phlant, gan gynnwys yr anabl. Mae'r ystafell ddosbarth fawr y mae'r lleoliad yn cael ei rhannu gyda dosbarth y Cyfnod Sylfaen yn darparu amgylchedd cyfforddus a symbylus ar gyfer addysgu a dysgu. Fodd bynnag, nid yw'r lleoliad wedi dynodi cornel gartref iddo'i hun lle mae'n gallu arddangos llyfrau a deunyddiau sydd yn berthnasol yn arbennig i'r plant ieuengaf.

Mae tir yr ysgol, ac yn arbennig yr ardaloedd dysgu tu allan, yn cael eu defnyddio'n dda iawn i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae datblygiadau diweddar wedi arwain at welliannau arwyddocaol mewn safonau, darpariaeth a rheolaeth. Mae gan yr arweinydd weledigaeth eglur ar gyfer datblygiad y lleoliad. Mae hi'n cyfleu disgwyliadau uchel ac yn cefnogi a gosod sialens i bawb i wneud eu gorau. Mae'r ethos cadarnhaol sy'n treiddio trwy'r lleoliad yn sicrhau bod plant a staff yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r arweinydd a'r ymarferydd yn gweithio'n agos iawn fel tîm. Mae ganddynt werthoedd y maent yn eu rhannu mewn perthynas â dysgu, ymddygiad a pherthnasau ac maent yn sicrhau bod y Cyfnod Sylfaen yn cael ei weithredu'n llwyddiannus. Mae eu parodrwydd i weithredu ar gyngor awdurdod lleol ac ymgymryd â blaenoriaethau cenedlaethol a mentrau newydd, megis asesu ar gyfer dysgu, yn gryfder. Sefydlodd y lleoliad nodau a pholisïau eglur sy'n canolbwyntio ar anghenion plant ac yn cael eu gweithredu'n gydwybodol gan yr holl staff. Mae'r berthynas gadarnhaol gyda phlant, rhieni a staff yr ysgol gynradd yn cyfrannu'n sylweddol tuag at greu synnwyr o gymuned. Mae yna gyfundrefn rheoli perfformiad priodol sy'n cynorthwyo staff i arfarnu a gwella eu harfer ac adnabod eu hanghenion proffesiynol.

Mae'r pwyllgor rheoli yn ymgymryd â'i gyfrifoldebau yn gydwybodol iawn er nad oes ganddo ond ychydig o aelodau. Mae'r pwyllgor yn rhannu gwybodaeth gyda rhieni trwy gylchlythyrau a chyfarfodydd ac yn cefnogi'r arweinydd yn ei gwaith. Mae aelodau'r pwyllgor yn sicrhau bod unrhyw gwynion yn cael eu datrys ar unwaith a bod y lleoliad yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r arweinydd yn adnabod y lleoliad yn dda a gyda chefnogaeth (yr?) awdurdod lleol wedi llwyddo, o fewn byr amser, i sefydlu cyfundrefnau hunan arfarnu effeithiol.

Mae deilliannau archwiliadau ffurfiol yr awdurdod lleol, ynghyd â chyngor athrawes gefnogol, yn cael eu defnyddio'n bwrpasol gan y lleoliad i adnabod arfer dda ac i flaenoriaethu materion y dymuna eu gwella. Mae hunan arfarnu'n cymryd barn rhieni i ystyriaeth yn ofalus ac mae'n cael budd sylweddol o'r cyngor y mae staff yr ysgol yn ei roi.

Mae gwybodaeth a ddaw o hunan arfarnu yn cael ei defnyddio'n bwrpasol i flaenoriaethu'r materion y mae'r lleoliad yn dymuno eu gwella. Mae'r camau a gymerwyd i wella safonau ac i ymateb i argymhellion archwiliad yr awdurdod lleol wedi arwain at ddeilliannau cadarnhaol.

Mae'r diwylliant a sefydlodd yn dda o gydweithredu, ynghyd â bodlonrwydd staff i ymgymryd â chyfrifoldebau yn galluogi'r lleoliad i ddatblygu fel cymuned ddysgu gref. Mae ymarferwyr yn agored iawn i syniadau newydd ac yn fodlon arbrofi gyda ffyrdd gwahanol o weithio a rhannu eu gwybodaeth gydag eraill o fewn y lleoliad a'r ysgol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae amrediad da o weithgareddau partneriaeth yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i gyflawniad a lles plant. Mae partneriaeth dra chynhyrchiol gydag Ysgol Rhewl, a'r lleoliad yn manteisio'n sylweddol ar ei pharodrwydd i rannu ei hadnoddau a'i harbenigedd. Nodwedd sy'n haeddu ei chrybwyll yw ymwneud gweithredol pennaeth yr ysgol, ei staff a'i chorff llywodraethol â datblygiad y lleoliad. Mae'r berthynas agos rhwng y lleoliad a dosbarth Cyfnod Sylfaen yr ysgol yn sicrhau bod plant yn trosglwyddo'n llyfn i addysg llawn amser.

Mae rhieni yn derbyn gwybodaeth reolaidd am bob agwedd o waith y lleoliad ac mae'r arweinydd yn manteisio ar bob cyfle i'w cynnwys yn nysgu eu plant. Mae ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn dda iawn, yn rhannu gwybodaeth am blant ac yn gwybod â phwy i gysylltu a phryd os oes angen cefnogaeth ychwanegol ar blant. Mae nifer o ddolennau cyswllt buddiol gyda nifer o sefydliadau yn y gymuned leol. Mae ymweliadau rheolaidd, adroddiadau a chyngor proffesiynol athrawes gefnogol yr awdurdod lleol yn cael effaith gadarnhaol iawn ar ddatblygiad y lleoliad.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r lleoliad wedi cael ei staffio'n briodol i addysgu pob agwedd o'r cwricwlwm ac mae aelodau staff yn cael eu defnyddio'n effeithiol i wneud y defnydd gorau o'u hamser, eu harbenigedd a'u profiad. Mae adnoddau'n cael eu rheoli'n dda.

Mae gan yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth drwyadl o'u cyllideb ac maent yn blaenoriaethu eu gwariant yn unol ag anghenion datblygu'r lleoliad. Mae penderfyniadau ariannol yn cael eu harfarnu ofalus gan yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli i wneud yn siwr eu bod yn cael effaith gadarnhaol ar safonau, cynnydd a lles plant. Mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**
Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron i rieni gan mai nifer fach o ymatebion a ddaeth i law (llai na 10).

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Mae'r plant yn dweud eu bod yn hapus yn y lleoliad a'u bod yn hyderus i droi at unrhyw oedolyn i ofyn am gyngor neu arweiniad.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Wil Williams | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |